

etholedig yn ben ar genhedloedd y byd a sefydlu teyrnas Duw ar y ddaear.

(idd) *Ysgrifenyddion*

Yr enw Hebraeg ar y sect hon, yn wreiddiol, oedd SOPHER. Swyddog brenhinol oedd i ddechrau, oherwydd ei allu i ddarllen ac ysgrifennu. Ar ôl cyfnod y gaethglud (gwel. 2.6) daeth i olygu swyddog mewn materion crefyddol, a bu sect yr Ysgrifenyddion yn fawr eu dylanwad hyd at gwymp Jerwsalem yn 70 OC.

Yn nyddiau Esra, yr Ysgrifenyddion a oedd yn gyfrifol am esbonio'r Gyfraith (Esra 7 : 11), a daethpwyd i synio amdanynt fel gwŷr hyddysg ynddi ac fel rhai a oedd yn awdurdod arni. Hwyl oedd esbonwyr swyddogol y Gyfraith, a hwy a greodd y syniad mai 'Pobl y Gyfraith' oedd pobl yr Arglwydd.

Lledaenodd dylanwad yr Ysgrifenyddion yn ystod y ddwy ganrif cyn Crist a hyd at 70 OC. Fel y Phariseaid, yr oeddnynt mewn cysylltiad agos â'r synagog a'r bobl gyffredin, a hwy oedd yn gyfrifol am lunio trefn y gwasanaethau yn y synagog. Yr oeddnynt yn gydwybodol iawn hefyd yn eu gofal am yr ysgrifurau ysgrifenedig, ac wrth eu trosglwyddo i eraill yn enwedig. Cadwent at y traddodiad llafar, a hwy, yn nhyb yr Iddew, oedd arweinwyr ysbrydol y genedl a rhoddwyd yr enw Rabbi iddynt (gwel. 5.5[c]).

Yr oedd yr Ysgrifenyddion hefyd yn athrawon y Gyfraith. I'r pwrpas hwn, defnyddient y synagog, ond buont hefyd mewn cysylltiad â'r deml, fel y dengys y Testament Newydd (Luc 2 : 46, loan 18 : 20). Yr oeddnynt yn aelodau o'r Sanhedrin, ac oherwydd hyn fe'u gelwid hwy yn 'gyfreithwyr' a chlywir amdanynt yn gweinyddu'r gyfraith (Marc 12 : 40, Luc 20 : 47).

Mewn materion crefyddol, yr oeddnynt yn debyg i'r Phariseaid, ond ni ddylid cymysgu rhwng y ddwy sect. Ond yr oeddnynt yn gytûn ar bwysigrwydd y Gyfraith a'i hawdurdod ar fywyd, ac yn eu cred mewn atgyfodiad ac yn y gobaith mesecanaidd.

PENNOD 6

GWYLIAU, DEFODAU AC ARFERION

Dyma restr o brif wyliau Iddewiaeth:

<i>Chwefror</i>	: Gŵyl Purim
<i>Mawrth</i>	: Gŵyl y Pasg (Pesach)
<i>Mai</i>	: Gŵyl Pentecost (Shevuoth)
<i>Mehefin</i>	: Gŵyl Ymryd Tammuz
<i>Gorffennaf</i>	: Gŵyl Ymryd y nawfed Av
<i>Medi</i>	: Gŵyl y Flwyddyn Newydd (Rosh Hosanah)
	: Gŵyl Ymryd Gedaliah
	: Gŵyl Dydd y Cymod (Yom Kippur)
	: Gŵyl y Pebyll (Sukkoth)
	: Gŵyl Llawenhau yn y Gyfraith (Simcath Torah)
<i>Tachwedd</i>	: Gŵyl y Goleuadau (Hanukah)
<i>Rhagfyr</i>	: Gŵyl Ymryd y Degfed Tevet

CALENDR IDDEWIG

TISHRI	Medi—Hydref
KISLEV	Tachwedd—Rhagfyr
TEVET	Rhagfyr—Ionawr
SHEVAT	Ionawr—Chwefror
ADAR	Chwefror—Mawrth
NISAN	Mawrth—Ebrill
IYAR	Ebrill—Mai
SIVAN	Mai—Mehefin
AV	Gorffennaf—Awst

6.1 Gŵyl y Flwyddyn Newydd

Dethlir Gŵyl y Flwyddyn Newydd (ROSH HOSANAH) am ddau ddiwrnod yn y mis Iddewig a elwir TISHRI (mis Medi). Mae'r ŵyl yn un anghyffredin o ddwys, yn ŵyl o sancteiddrwydd yn hytrach nag o wleda. Cedwir hi mewn ysbryd o fyfyrddod, gweddi ac edifeirwch.

Yn ystod Gŵyl y Flwyddyn Newydd, bydd yr Iddew yn edrych yn ôl ar ei fywyd, ei ddiffygion a'i wendidiau, ac yn edrych ymlaen at y dyfodol er mwyn paratoi ar ei gyfer. Y mae Iddewon yn ymgynnull yn y synagog i weddio am faddeuant ac am frawdgarwch:

'Una pawb ohonom yng nghwllwm brawdgarwch.'

Cadarnheir addunedau o ffyddlondeb i Dduw trwy ailgoleddu buchedd gyfiawn, gywir, trwy undod ysbrydol, trwy weddi, brawdgarwch, cariad a gwasanaeth teyrngarol. Ystyr y gair ROSH HOSANAH yw 'pen y flwyddyn', ac y mae deuddydd yr ŵyl yr un mor arwyddocaol â phob dydd arall o'r flwyddyn; nid oes gwahaniaeth annatod rhwng dyddiau'r flwyddyn ar ei hyd, ond y mae gan y dyddiau cyntaf berthynas â'r lleill fel y mae gan y pen gysylltiad â'r corff. Ar yr ŵyl, seinir y SHOPHAR, corn hwrdd, i alw ar Iddewon i fod yn bresennol gerbron Duw, i gadarnhau eu ffydd a'u hufudd-dod.

Cododd llawer o arferion yn sgîl yr ŵyl hon. Un ohonynt yw dechrau'r ŵyl trwy fwyta afalau a mêl, i gryfhau'r gobaith y bydd y flwyddyn yn un o felyster a llawenydd. Yr oedd yn arferiad unwaith i deuluoedd cyfain — tadau, mamau a phlant — fynd ar brynhawn cyntaf y flwyddyn newydd at lan afon, gweithred symbolaidd o feddydd maddeuant. Cyfarchiad arferol y flwyddyn newydd yw:

'Bydded i ti gael dy dyngedu am flwyddyn ddedwydd.'

Dylid cofio bod yr ŵyl hon yn dathlu'r weithred o greu'r byd yn ôl Genesis 1-2, a bod seinio'r SHOPHAR yn coffáu hanes Abraham ac Isaac ym Moreia, pan roddodd Duw hwrdd yn aberth yn lle Isaac. Yn ôl traddodiad Iddewig, y mae cysylltiad agos rhwng y flwyddyn newydd a sylfaenydd ffydd yr Iddew. Yn y gwasanaeth arbennig a gynhelir ar yr ŵyl hon, cyfeirir at y darnau canlynol o'r Beibl:

- (a) Cydnabod brenhiniaeth yr Arglwydd ar yr holl fyd (Salm 24 : 7-10; Ezeia 46 : 4)
- (b) Cofio Cyfiawnder Duw (Genesis 8 : 1; Exodus 2 : 24; Jeremeia 30 : 20)
- (c) Seinio'r SHOPHAR (Exodus 19 : 16-19, 20 : 18; Salm 47 : 5, 98 : 6)



(Llun 9) *Seinio'r SHOPHAR.*

(The Board of Deputies of British Jews)

6.2 Dydd y Cymod

Ddeng niwrnod ar ôl dechrau'r flwyddyn newydd cynhelir Gŵyl Dydd y Cymod (YOM KIPPUR). Dyma'r dydd dwysaf a sancteiddiolaf i'r Iddew, dydd o edifarhau, o weddio, a chefnu ar bechod. Amcan yr ŵyl ydyw gwireddu'r cyfamed â Duw trwy dalu iawn dros bechod a sefydlu cytundeb newydd ag Ef.

Dyma amlinelliad bras o ddefodau Gŵyl Dydd y Cymod:

- (a) Ar y noson cyn yr ŵyl cyneuir goleuadau yn y tŷ. Llosgir y golau am bedair awr ar hugain er cof am y meirw.
- (b) Yn y synagog y mae gwŷr crefyddol yn gwisgo dillad gwyn fel symbol o burdeb a hefyd i gofio bod pawb i ymddangos o flaen Duw ar ddydd y farn.
- (c) Agorir y gwasanaeth yn y synagog â'r weddi a adwaenir fel KOL NIDREL. Cenir y weddi ar dôn wefreiddiol a fu'n ysbrydoliaeth i Iddewon ar hyd yr oesau.
- (ch) Treulia'r Iddew Ŵyl y Cymod ar ei hyd yn y synagog mewn gweddi.
- (d) Mae'r oedolion — dynion a gwragedd — yn ymptydio am ddiwrnod cyfan fel arwydd o edifeirwch ac ufudd-dod.
- (dd) Diweddir defodau'r ŵyl â 'gwasanaeth terfynol', a chydadroddir y SHEMA, cyffes ffydd Iddewiaeth, i gloi.
- (e) Yn olaf, seinir y SHOPHAR i gyhoeddi bod Dydd y Cymod ar ben.

Mae hen draddodiad y tu ôl i Wyl y Cymod sydd â'i wreiddiau yng nghyfnod y Beibl. Yn y cyfnod hwnnw yr oedd yn arferiad i'r arch-offeiriad offrymu aberth (Bwch Dihangol) fel iawn am bechodau'r genedl yn y rhan sancteiddiolaf o'r deml. Dynodai'r aberth gyfrifoldeb unol y genedl am bechod, a rhan pob aelod ohoni ym maint pechod y genedl. Heddiw rhoddir y prif bwyslais ar ddatblygiad ysbrydol Iddewiaeth, dyfnhau ffydd yn Nuw a meithrin ysbryd o ewylllys da at bawb. Cred yr Iddew y pery defod dydd mor gysegredig â hwn am byth.

6.3 *Gŵyl y Pebyll*

SUKKOTH yw'r enw Iddewig ar yr ŵyl hon. Cynhelir hi ym mis TISHRI. Ystyr y gair SUKKOTH yw 'tabernaclau', gair sy'n golygu trigfa neu breswylfa. Pabell, ac nid adeilad parhaol, o 'liain main cyfrodedd a glas, a phorffor ac ysgarlad' oedd y tabernacl yn wreiddiol. Gorchuddid y cyfan gan len o flew geifr, ac ar y llenni hynny gosodid to o grwyn hyrddod, a tho o grwyn morloi.

Cedwir Gŵyl y Pebyll am saith niwrnod. Bwriedid i'r Iddew dreulio'r saith niwrnod mewn pabell, a bwyta'i fwyd ynddi. Yn yr hen amser yr oedd gan bob teulu ei babell wedi'i chodi gan y teulu cyfan. Heddiw codir pabell yn y synagog fel symbol o'r hen draddodiad.

Pwrpas Gŵyl y Pebyll yw coffáu taith Israel trwy'r anialwch yng nghyfnod Moses. Am ddeugain mlynedd, trigai'r Israeliaid mewn pebyll, ond yr oeddynt yn sicr bod Duw yn trigo gyda hwy. Gŵyl o lawenydd mawr yw hon a gynhelir ar adeg y cynhaeaf i gofio fel yr adeileddid pebyll yn y meysydd i gysgodi'r gweithwyr rhag yr haul.

Trwy'r ŵyl mae'r Iddew yn datgan diolchgarwch am roddion Duw ac am Ei fendith ar ei lafur. Cynhelir gwasanaethau yn y synagog, a cheir arwyddluniau o amrywiol fendithion Duw i'w bobl yn addurno'r lle.

Yn y dyddiau gynt cyfrifid Gŵyl y Pebyll yn un o'r gwyliau pererindol, a theithiai Iddewon o bob rhan o Balestina i'r deml yn Jerwsalem â rhoddion o'r cynhaeaf ac o'r praidd yn offrymau o ddiolchgarwch am ddaioni Duw.

Ymhlith Iddewon Diwygiedig cynhelir yr ŵyl am wyth niwrnod. Ar y dydd cyntaf a'r olaf cynhelir gwasanaethau arbennig yn y cartref ac yn y synagog. Ar hyd yr ŵyl y mae'r ffyddloniaid yn bwyta mewn pebyll i gofio am yr Israeliaid yn trigo mewn pebyll yn yr anialwch. Gwneir y babell o furiau dros dro wedi eu gorchuddio â dail a changhennau, a'r to yn agored i'r sêr.

Yn ystod y gwasanaeth, ac er mwyn dathlu'r cynhaeaf, cynhelir y ddefod LULAF, hynny yw, dal yn y llaw dde, ac yna yn y llaw

chwith, bob yn ail, glwstwr o ganghennau'r palmwydd a thri brigyn o furtwydd a dau o bren helyg. Symbol yw hyn o ddiolchgarwch trwy'r holl fyd am y cynhaeaf, ac o'r un Duw sy'n bresennol ymhob lle. Ar yr un pryd cenir canïadau o fawl a gweiddi 'Hosanna' (Achub ni).

Ar yr wythfed dydd, yn union ar derfyn defodau SUKKOTH, cynhelir gŵyl undydd a elwir yn y Beibl 'Wythfed Dydd y Cynulliad Sanctaidd' pryd yr offrymir gweddïau am law. Gan y cynhelir yr ŵyl yn yr hydref, y mae'r wlad yn edrych ymlaen at dymor o law yr adeg hon o'r flwyddyn.

Yn ystod yr ŵyl hon darllenir y darnau canlynol o'r TORAH — Exodus 33 : 12-34 : 26; Lefiticus 22 : 26-23 : 44; Deuteronomium 14 : 22-16 : 7, ynghyd â darlenniadau o'r proffwydi a rhannau eraill o'r Beibl, fel Josua I, Sechareia 14. Dyma enghraifft o weddi a offrymir ar yr ŵyl:

'Mynegir dy lawenydd yn yr ŵyl hon o'r Gyfraith,

Rhoddir pob gwrogaeth i Ti heddiw,

Fy Nuw, gwnaf adduned i Ti mewn gorfoledd,

Ni roddaf fyth heibio fy ngobaith ynddo . . .

Gorfoledda yn y Gyfraith ar ddydd yr ŵyl,

Y Gyfraith yw'r Goleuni a'r Amddiffynnwr;

Tra bo anadl ynof, mynegaf â'm gwefusau Dy holl ryfeddodau,

Dy wirionedd a'th Ddaioni sydd mor dyner.'

6.4 *Gŵyl y Goleuadau*

Dethlir yr ŵyl hon am wyth niwrnod ar ddiwedd yr hydref. Nid oes cyfeiriad at yr ŵyl yn y Beibl ond fe'i cynhelir hi heddiw â llawenydd mawr fel gŵyl deuluol bwysig.

Sylfaen hanesyddol yr ŵyl yw buddugoliaeth yr Iddewon ar Antiochus Epiffanes yn 165 CC (gwel. 2.7). Yn y cyfnod hwnnw arweiniodd Jwdas y Macabead yngyrch yn erbyn y gelyn, a llwyddodd i sefydlu'r deml yn Jerwsalem unwaith eto fel canolfan addoliad ei genedl. Ar ôl y digwyddiadau hyn cynhaliai'r Iddewon ŵyl am wyth niwrnod i ddathlu'r fuddugoliaeth. Cedwir gŵyl HANUKAH i goffáu ailgysegru'r deml yn Jerwsalem.

Ar bob noson o'r wyth niwrnod, y mae'r Iddewon yn goleuo'r MENORAH, y canhwylbren ag wyth o ganghennau. Ar y noson gyntaf goleuir un gannwyll, ar yr ail ddwy, ac felly ymlaen nes bod yr wyth gannwyll wedi'u goleuo. Symbol yw'r golau o fuddugoliaeth goleuni ar dywyllwch. Datblygodd y canhwylbren ag wyth o ganghennau o'r canhwylbren â saith o ganghennau a losgai yn y deml. Cedwir y canhwylbren saith-ganghennog yn y cartref ac yn y synagog, i arwyddo goleuni'r ffydd nas diffoddir byth. Fel y mae



(Llun 10) *Dathlu Gŵyl y Goleuadau (HANUKAH), yr ŵyl wyth niwrnod a gynhelir yn Rhagfyr. Bydd Iddewon yn rhoi ac yn derbyn anrhegion ar yr ŵyl hon.*
(The Council of Christians and Jews)

goleuni'r canhwylbren yn disgleirio'n fwy wrth i rif y canhwylau gynyddu, felly y mae ffydd i ledaenu ei goleuni nes goleuo'r holl fyd.


6.5 Gŵyl PURIM

Ym mis Mawrth (ADAR) cynhelir Gŵyl PURIM (cynulliad). Y mae hon yn un o wyliau llai pwysig Iddewiaeth (pryd y caniateir i'r Iddew gadw at ei waith), er ei bod yn achlysur o lawenydd mawr.

Adroddir hanes PURIM yn llyfr Esther. Yma ceir hanes am Haman, arch-elynnwr Iddewon, a fagodd ysbryd gelyniaethus yn eu herbyn am iddynt wrthod talu gwrogaeth iddo fel person goruwchnaturiol. Cododd ei elyniaeth ffyrnig ddychryn ac ofn ar y bobl nes peri i'r frenhines Esther gymryd yr awenau, a throï dydd eu galar yn ddydd o lawenydd:

'A phan ddaeth Esther o flaen y brenin, efe a archodd trwy lythyrâu, ddychwelyd ei ddrwg fwriad ef . . . Am hynny y galwasant y dyddiau hynny Purim, ar enw y Pur . . . Yr

Iddewon a ordeiniasant, ac a gymerasant arnynt, ac ar eu had . . . na phallai bod cynnal y ddau ddydd hynny, yn ôl eu hysgrifen hwynt, ac yn ôl eu tymor, bob blwyddyn: Ac y byddai y dyddiau hynny i'w cofio ac i'w cynnal trwy bob cenhedlaeth . . . sef na phallai y dyddiau Purim hynny o fysg yr Iddewon.
(Esther 9 : 25-28)



(Llun 11) *MENORAH, a thair cannyll wedi eu goleuo arni.*
(The Board of Deputies of British Jews)

Ar Ŵyl PURIM darllenir stori Esther allan o sgrol arbenig (MEGILLAH) yn y bore a'r nos yn y synagog. Darllenir i gyfeiliant curo dwylo ac atebion priodol gan y gynulleidfa.

PURIM yw gŵyl ddedwyddaf Iddewiaeth. Mewn rhai mannau perfformir drama Esther a llosgir delw o Haman. Trefnir gwleddoedd o bob math, a rhoddir anrhegion i'r tlawd a'r anghenus.

6.6 Gŵyl y Pasg

Y Pasg yw'r ddefod fwyaf nodweddiadol o Iddewiaeth. Y mae'r ŵyl yn dirwyn yn ôl i gyfnod yr Exodus o'r Aifft a gwaredigaeth Israel o gaethiwed. Gelwir yr ŵyl wrth yr enw hwn i gofio am weithred Duw yn arbed (PESACH) yr Israeliaid pan anfonwyd y deg pla ar yr Eifftwyr. Ar hyd yr ŵyl bwyteir bara croyw (MATZAH) i

gofio mai ar frys y ducpwyd Israel o'r Aifft, a hefyd lysiau chwerw (MAROR), er cof am chwerwder caethiwd yr Aifft.

Yn ôl y Beibl cynhelir Gŵyl y Pasg ym mis NISAN a phery am saith niwrnod o'r pymthegfed o'r mis ymlaen. Ar y noson flaenorol aberthir dafad i'w bwyta, noson a elwir wrth yr enw SEDER ('trefn').



(Llun 12) *Dathlu Gŵyl y Pasg: noson y SEDER.*

(The Council of Christians and Jews)

Gŵyl a gynhelir yn y cartref yw'r PESACH a chyn dechrau arni y mae'n arferiad i roi pob bwyd croyw (CHAMETS) o'r neilltu. Daw aelodau'r teulu ynghyd i'r ŵyl, a gwahoddir gwesteion i ymuno â hwy. Y mae'n arfer i adael un gadair yn wag i'r proffwyd Eleias, y disgwyllir iddo — yn ôl traddodiad — ddychwelyd cyn dyfodiad y Meseia. Cedwir Gŵyl y PESACH â defodau arbennig. Mae gwraig y tŷ yn gwisgo'r bwrdd â lliain gwyn, ac yn goleuo canhwylau. Y mae'n gofalu bod lysiau chwerw (MAROR) a saws (HAROSETH) afalau, cnau a sinamon, cig dafad ac ŵy, a llestr o ddŵr hallt, wedi eu gosod ar ddau blât o flaen y penteulu. Hefyd gofelir bod llond gwydr mawr o win o flaen pawb, gwin coch fel arfer, gan yr yfir llond pedwar cwpan o win yn ystod yr ŵyl.

Agorir y gwasanaeth â'r fendith ar y gwin (y KIDDUUSH):

'Bendigeidig wyt Ti, O Arglwydd ein Duw, Brenin y bydysawd, Crëwr ffrwyth y winwydden.'

Ar ôl hyn y mae'r cwmni'n cydfwytia ac yn yfed y cwpanaid cyntaf o win. Yna rhoddir esboniad ar elfennau'r bwyd a'r gwin gan y

penteulu cyn canu dwy o'r Salmau HALLEL (113-114) ac ynddynt gyfeiriadau at Israel yn yr Aifft a'i gwaredigaeth oddi yno:

'Pan aeth Israel o'r Aifft, tŷ Jacob oddi wrth bobl anghyfiaith; Jwda oedd ei sancteiddrwydd, ac Israel ei arglwyddiaeth. Y môr a welodd hyn, ac a gilodd, yr Iorddonen a drodd yn ôl.'

Am mai Duw oedd yn gyfrifol am y weithred ryfedd hon, y mae'r salmydd yn annog y bobl:

'Ofna, di ddaciar, rhag yr Arglwydd, rhag Duw Jacob: Yr hwn sydd yn troi y graig yn llyn dwfr, a'r gallestr yn ffynnon dyfroedd.'

Diwedd yr ŵyl â'r GE'HULLAH sy'n clodfori Duw am dderbyn Ei bobl o gaethiwd yr Aifft.

Dyma amlinelliad o drefn gwasanaeth y SEDER (defod nos y PESACH):

1. Y CWPAN CYNTAF — 'I FYWYD'
Sancteiddiad
Golchi'r dwylo
Helogan (seleri) neu letysen
Rhannu'r MATZAH
2. YR AIL GWPAN — 'I RYDDID'
Y Pedwar Cwestiwn a'r Hanes
Golchi'r dwylo
Bendithio'r MATZAH
Llysiau chwerw
Llysiau chwerw a'r MATZAH
Bwyta'r cinio
3. Y TRYDYDD CWPAN — 'I HEDDWCH'
AFIKOMAN
Bendith ar ôl y pryd
4. Y PEDWERYDD CWPAN — 'I JERWSELEM'
Salmau
Ffarwelio

6.7 *Gŵyl y Pentecost*

Gelwir hon hefyd yn ŵyl yr wythnosau (SHEVUOTH), a chedwir hi ym mis Mehefin (SIVAN) ar y degfed dydd a deugain ar ôl Gŵyl y Pasg. Hi yw'r ail o dair prif ŵyl yr Iddewon.

Gŵyl amaethyddol oedd hon ar y dechrau i ddolch am gnydau'r maes. Dethlid ynddi y cynhaeaf gwenith a diwedd y cynhaeaf ŷd. Yn yr hen amser disgwyld i bob gwryw ymddangos gerbron yr Arglwydd â dwy dorth gyhwfan o ddwy ddegfed ran o beilliaid wedi eu pobi â lefain. Ynghyd â hyn, offrymid dau oen blwyddiaid yn

aberth hedd a phoeth-offrwm i'r Arglwydd. Arwydd o ddiwedd y cynhaeaf oedd yr aberthau a chedwid yr ŵyl mewn llawenydd a diolchgarwch. Yng ngolwg yr Iddew, y mae Gŵyl y Pentecost yn uchafbwynt i Ŵyl y Pasg. Y mae'r waredigaeth a ddechreuwyd â'r Pasg yn cyrraedd ei chyflawnder yng Ngŵyl y Pentecost. Felly daw'r Iddewon ynghyd i'r synagog i ddaigau mawl i Dduw am fendithion natur. Gwisgir y synagog â ffrwythau'r maes a blodau. Darllenir llyfr Ruth a'r hanes am haelioni Boas tuag at Ruth:

'A dywedodd Boas wrthi hi, Yn amser bwyd tyred yma, a bwyta o'r bara . . . a gorchynnodd Boas i'w weision, gan ddywedyd, Lloffed hefyd ymysg yr ysgubau, ac na feiwch arni: A chan ollwng gollyngwch hefyd iddi beth o'r ysgubau; a gadewch hwynt, fel y lloffo hi hwynt; ac na cheryddwch hi.'

(Ruth 2 : 14-16)

6.8 Llawenhau yn y Gyfraith

Ar y dydd cyntaf ar ôl Gŵyl y Pebyll dechreuwyd yn yr Oesoedd Canol gynnal dydd o lawenhau yn y Gyfraith. Yr oedd yn ddydd o lawenydd am fod blwyddyn o ddarllen y TORAH ar ben, a blwyddyn arall o'i darllen ar fin dechrau. Ar yr achlysur llawen hwn, gelwir ar y dynion a'r plant sy'n bresennol yn y synagog i'r ddarllenfa, ac y mae pob un yn llawenhau yn y TORAH.

Ar yr hwyr cyn dydd y SIMCATH TORAH symudir sgroliau'r ysgrythurau sanctaidd o'r Arch, ac eithrio un. Yna y mae dynion y gynulleidfa yn cario'r sgroliau mewn saith gorymdaith trwy'r synagog. Ar flaen yr orymdaith y mae'r plant yn cludo baneri ac arnynt arwyddluniau crefyddol a geiriau o'r ysgrythurau mewn Hebraeg. Cenir emynau gorfoleddus a rhennir ffrwythau a melysion i'r plant.

Ar y bore canlynol, darllenir rhan gyntaf a rhan olaf Pumlyfr Moses. Gelwir y darllenwr yn 'Briodfab y TORAH', ac y mae darllen y TORAH yn anrhydedd ac yn gyfrifoldeb mawr. Y mae'r plant yn edrych ymlaen at y dydd â llawenydd eithriadol. Y mae 'Priodfab y TORAH' yn darllen y rhan olaf o lyfr Deuteronomium yn nefod yr ŵyl.

6.9 Y Nawfed Dydd o AV

Pwrpas yr ŵyl hon ydyw coffáu, mewn tristwch mawr, dinistrio'r deml yn y chweched ganrif CC, ar y nawfed dydd o AV, a chwalu'r ail deml gan y Rhufeiniaid yn 70 OC. Treulir y dydd hwn mewn ysbryd galarus a thrist.

Dair wythnos cyn y nawfed o AV, hynny yw, ar yr ail ddydd ar bymtheg o Tammuz, y dydd y parodd y Rhufeiniaid y rhwyg cyntaf ym muriau'r deml, y mae Iddewon Uniongred a Rhyddfrydol yn dechrau ar dymor dwys. Nid ydynt yn caniatáu priodasau yn ystod y tair wythnos, ac ar y tri Saboth cyn y nawfed o AV, darllenir yr hanes adfyddus am gwmp Jerwsalem. Ar y noson cyn y nawfed, symudir y llen o flaen yr Arch, a darllenir mewn llais pruddglwyfus Lyfr y Galarnad gan ddarllenwr yn eistedd ar stôl isel. Y mae Iddewon traddodiadol eu hagwedd yn ymptydio am bedair awr ar hugain fel arwydd o'u cydymdeimlad personol â hanes dioddefus eu cenedl. Ond ystyrir yr wythnosau sy'n dilyn y nawfed o AV fel rhai gobeithiol a chysurion. Yn ystod y saith Saboth dilynol, sef y Sabothau cysur, y mae'n arferiad i ddarllen y darnau hynny o'r profwydi sy'n cynnig cysur a gobaiith newydd i'r genedl.


6.10 Bar Mitzvah

Oddeutu chwe chan mlynedd yn ôl dechreuodd Iddewiaeth gadw defod y BAR MITZVAH, ac erbyn heddiw y mae hon yn un gyffredin a nodweddiadol o'r grefydd. Ystyr yr ymadrodd BAR MITZVAH yw 'mab y Gyfraith', ac wedi i blentyn gyrraedd tair blwydd ar ddeg, derbynir ef fel 'mab y Gyfraith'.

Pan ddechreu bachgen ar ei addysg ffurfiol fe'i hyfforddir yn y Gyfraith, y gorchmynion a defodau'r grefydd Iddewig. Y bwriad yw ei ddysgu i fyw a gweithio yn unol ag egwyddorion a chyfarwyddiadau'r grefydd. Hyd at dair blwydd ar ddeg oed, nid yw'r bachgen yn gyfrifol am gadw'r holl ddeddfau — ei dad sy'n dwyn y cyfrifoldeb ar ei ran — ond ar ôl ei feithrin yn ffydd ei dadau, ac wedi iddo gyrraedd yr oedran priodol, disgwylir iddo ef ei hun dderbyn y cyfrifoldeb.

Y TORAH yw sylfaen y ffydd a'r arweiniad iddi. Yn nefod y BAR MITZVAH gelwir y bachgen am y tro cyntaf i ddarllen y TORAH, neu ran arall o'r ysgrythur, yn oedfa Sabothol y synagog. Ar ôl y darlenniad, y mae'r Rabbi'n pwysleisio'r cyfrifoldeb newydd a ddaw iddo trwy gyrraedd yr oedran hwn.

Y mae'n awr wedi dod i oed, yn hyddysg yn y Gyfraith, ac yn barod i ymuno â MINYAN y synagog, hynny yw, y deg o ddynion sydd yn angenrheidiol i gynnal gwasanaethau crefyddol. Nid sacrament ydyw BAR MITZVAH, ond symbol o statws newydd, a dull o gofio am ddaioni Duw i'w genedl, ac am Ei gyfamod â'r bobl etholedig.



(Llun 13) Defod y BAR MITZVAH: derbyn bachgen tair ar ddeg oed yn 'fab y Gyfraith'.
(The Council of Christians and Jews)

GWEDDI'R BAR MITZVAH

'Dad nefol, yn yr awr gysegredig a dwys hon yn fy mywyd, safaf o'th flaen yn wyneb y gynulleidfa sanctaidd hon, i fynegi fy nyletswydd, i droi atat bob dydd mewn gweddi, ac i gadw gorchmynion Dy Ddeddf er mwyn i ddyn fyw'n deilwng. Gweddïaf ger Dy fron yn wylaidd ac yn obeithiol y rhoddi i mi Dy gymorth grasol fel y cafwyf yr ewyllys a'r deall i rodio yn gyson yn Dy ffyrdd holl ddyddiau fy mywyd. Planna ynof ysbryd o wir deyrngarwch i'th wasanaeth, fel yr ymrwymaf i bopeth sydd yn sanctaidd, cyfiawn a daionus, ac ymwrthod â phob drygioni a themtasiwn pechadurus.

Fely datblygaf i lawn ddynodod, yn Dy ofal cariadus, bydded i nerth corfforol, gallu meddyliol a gwroldeb moesol gynyddu

ynof, fel y cyflawnaf fy nyletswyddau i Ti mewn parchusrwydd, gwybodaeth a chariad, a'm dyletswyddau i'm cymydog mewn parodrwydd, cydymdeimlad a gwrhydri.


Heddiw cymeraf fy lle yn y gymdeithas, fel un a gyfrifir yn deilwng o ffurfio cynulliad ar gyfer addoliad cyhoeddus, ac o dderbyn cyfrifoldeb llawn fel Iddew. Cynorthwya fi, O Dad Trugarog, yr Hwn a ddewisaist Dy bobl Israel i'th wasanaethu, i gael fy nghyfrif bob amser yn fab ffyddlon ymhlith Dy bobl, yn frwdfrydig dros eu henw da ac yn falch o dderbyn fy rhan yn etifeddiaeth cynulleidfa Jacob. Nertha fi yn fy mhenderfyniad fel nad ymwahanaf fyth oddi wrth y gymdeithas ond fy nghyfrif fy hun bob amser yn aelod o genedl Israel, i gynnal ei budd a'i gogoniant fel fy mhrif ddyletswydd. Bydded i esiamp anrhydeddus ein hynafiaid fy ysbrydoli bob amser i sancteiddio Dy enw, ac i dystiolaethu i'th ofal a'th ddiogelwch, a welir yn Dy holl weithredoedd. Amen.'

(Adroddir y weddi hon gan y BAR MITZVAH pan elwir arno i ddarllen y TORAH cyn y fendith, neu ar ôl i'r Rabbi ei annerch.)



(Llun 14) Defod boblogaidd arall yw'r BAT CHAYIL neu'r BAT MITZVAH. Wedi iddynt dderbyn addysg greffyddol, bydd merched deuddeng mlwydd oed yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y Synagog. Mae'r ddefod hon hefyd, fel defod y BAR MITZVAH ar gyfer bechgyn, yn golygu bod y merched yn ddigon hen i dderbyn cyfrifoldeb.

(The Council of Christians and Jews)



(Llun 15) *Gwisgo TEFILLIM.*

(The Council of Christians and Jews)

Anrhydedd arall a ddaw i fachgen ar ddydd y BAR MITZVAH ydyw'r hawl i wisgo TEFILLIM (ffylacteri) ar adeg y weddi foreol yn y cartref neu yn y synagog. Yr oedd y TEFILLIM yn rhan o wisg yr Iddew yn y cyfnod cynnar, i'w atgoffa am orchymyn Duw. Felly darllenwn yn y Beibl:

'A rhwym hwynt yn arwydd ar dy law; byddant yn rhactalau rhwng dy lygaid. Ysgrifenna hwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth.' (Deuteronomium 6 : 8-9)

Dau flwch sgwâr wedi eu clymu gan rimyn lledr yw'r ffylacteri. Gwisgir un ar y talcen a'r llall ar y fraich chwith i gyfeiriad y galon, i arwyddo bod yr Iddew i gadw gorchymyn Duw â'i holl galon a'i holl feddlwl.

Y tu mewn i ffylacteri'r talcen ceir pedwar darn o femrwn, pob un mewn adran fach ar wahân. Ar bob un ceir darn o'r ysgrhythur, yn Hebraeg, yn ymwneud â hanfodion y ffydd. Y tu mewn i ffylacteri'r fraich chwith ceir yr un darnau wedi eu hysgrifennu ar femrwn. Ar ffylacteri'r talcen hefyd ceir y llythyren Hebraeg SHIN, ac ar yr un ar y fraich ceir y llythyren YODH, a chlymir y rhimyn ar ffurf y llythyren Hebraeg DALETH. Â'i gilydd y mae'r tair llythyren yn sillafu'r enw Hebraeg SHADDAI (coffier mai o'r dde i'r chwith yr ysgrifennir Hebraeg, gwel. 1.2), sef Hollalluog. Felly diben gwisgo

TEFILLIM bob bore ydyw cofio dyletswydd i Dduw. Y ddyletswydd gyntaf bob bore ydyw gwisgo'r ffylacteri i ddiolch am y bore newydd fel rhodd gan Dduw. Nid oes eisiau gwisgo ffylacteri ar y Saboth neu ar ddyddiau gŵyl, gan fod y dyddiau hyn yn ddigon ynddynt eu hunain i ddwyn i gof fawr weithredoedd yr Arglwydd.

6.11 Annibyniaeth

Dylid cyfeirio mewn unrhyw drafodaeth ar Iddewiaeth at yr hyn a ddigwyddodd i wlad Israel ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Ar y 29ain o Dachwedd, 1947, pleidleisiodd y Cenhedloedd Unedig i drosglwyddo rhan o wlad Israel yn ôl i'r Iddewon, a daeth yr amser, ar ôl canrifoedd maith, i gyhoeddi gwladwriaeth Iddewig annibynnol yn Israel. Ar gynnig Ben-Gurion, un o arweinwyr mawr y genedl yn y ganrif hon, derbyniwyd Eretz Israel (Gwlad Israel) yn enw'r wlad, a chroesawyd hyn yn llawen trwy chwarae'r anthem genedlaethol HATIKVAH (Y Gobaith); yna darllenwyd Datganiad yr Annibyniaeth gan Ben-Gurion. Gyda hyn gwawriodd cyfnod newydd arall yn hanes yr Iddewon. Ar y pryd dywedodd Ben-Gurion fod gwlad Israel yn agored i bob Iddew ddychwelyd yno o wledydd eraill y byd. Pan gyhoeddodd Ben-Gurion annibyniaeth Israel, yr oedd tua 665,000 o Iddewon yn byw yn y wlad, ond dychwelodd miloedd o wledydd eraill, a gwelwyd cynnydd mawr yn y boblogaeth yn ystod y blynnyddoedd dilynol. Bob blwyddyn cynhelir gŵyl yr YOM HA'ATZMAUT i ddathlu cyhoeddi annibyniaeth Israel ym 1948.